**CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED**
**LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL**

**COFNODION HEB EU CADARNHAU**
**Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd am 7.30 pm ar nos Fawrth, y 5ed o Ragfyr 2017 yn yr Ystafell Ddarllen, Llanon.**

**UNCONFIRMED MINUTES**
**Minutes of a meeting of the Council held at 7.30 pm on Tuesday, 5th December 2017 at the Reading Room, Llanon.**

Yn bresennol:
Cadeirydd: Y Cynghorydd Lodwick Lloyd; Y Cynghorwyr Sheila Davies, Jim Hughes, Lowri Jones, Dennis Morgan, Gwenno Piette, Aled Roberts, Bryan Tomlins, Philip Tomlins a Harriet Sinclair.
Y Cynghorydd Sir Dafydd Edwards
Mr Denfer Morgan (Clerc)

Present:
Chairman: Councillor Lodwick Lloyd; Councillors Sheila Davies, Jim Hughes, Lowri Jones, Dennis Morgan, Gwenno Piette, Aled Roberts, Bryan Tomlins, Philip Tomlins and Harriet Sinclair.
County Councillor Dafydd Edwards
Mr Denfer Morgan (Clerk)

**79 Personol**
Fe estynnodd y Cadeirydd llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Aled Roberts a'i wraig Nia, ar fabwysiadu mab, Bertie.

**79 Personal**
The Chairman congratulated Councillor Aled Roberts and his wife Nia, on the adoption of a son, Bertie.

**80 Cofnodion o'r Cyfarfod Misol a gynhaliwyd ar y 7fed o Dachwedd 2017**
Cadarnhawyd cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar y 3ydd o Hydref 2017 fel rhai cywir.

**80 Minutes of the Monthly Meeting held on 7th November 2017**
The Minutes of the Meeting of the Council held on 3rd October 2017 were confirmed as being a correct record.

**81 Materion yn codi o'r Cofnodion**

**81 Matters arising from the Minutes**

**81.1 Cwn yn Baeddu**
Cytunwyd bwrw 'mlaen i brynu arwyddion metal newydd o faint canolig oddi wrth Rebus Signs Ltd.

**81.1 Dog Fouling**
It was agreed to purchase medium sized metal additional signs from Rebus Wales Ltd.

**81.2 Meinciau**
Fe roddwyd anfoneb drwy law i'r Clerc oddi wrth Mr Meurig Lloyd, yn y swm o £180, am arolwg o'r meinciau ac am baratoi atodlen waith; ynghyd â phris am y gost o gario allan y gwaith adnewyddu dan sylw, fel a restrir yn yr atodlen waith.

Dywedodd y Cadeirydd fod un o'r contractwyr a oedd wedi gwrthod y gwaith yn wreiddiol nawr wedi dangos diddordeb yn gwneud y gwaith adnewyddu.

**81.2 Benches**
The Clerk was handed an invoice from Mr Meurig Lloyd, in the sum of £180, for the inspection of the benches and the preparation of a schedule of work; together with a quote for the cost of undertaking the actual renovation work, as listed in the schedule.

The Chairman indicated that one of the contractors who had originally declined the work had now shown an interest in undertaking the repairs.

Mynnodd yr Aelodau y dylai'r proses fod wedi ei wneud drwy ymarferiad tendro.

Dywedodd y Cynghorydd Sir Dafydd Edwards y gallai ddarparu rhestr o gontractwyr awdurdodedig a ddefnyddiwyd gan y Cyngor Sir ar gyfer gwaith o'r fath hwn.

Cynigiwyd nad oedd angen gwneud y gwaith o ailosod / angori'r meinciau i'r sylfeini concrid fel a restrwyd yr yr atodlen.

Felly **PENDERFYNWYD**:

i) setlo'r anfoneb am £180 ar gyfer y gwaith o gynnal arolwg a pharatoi atodlen a waned gan Mr Lloyd;
ii) cymryd mainc Cylch y Llan i ffwrdd oherwydd ei gyflwr peryglus; a
iii) nodi derbyn y pris a gynigiwyd gan Mr Meurig Lloyd am y gwaith adnewyddu ac i gynnig cyfle i gontractwyr eraill gynnig pris am y gwaith a restrir yn yr atodlen.

**81.3** Cytunwyd y trefniadau ar gyfer codi a goleuo'r Goeden Nadolig a pharatoi'r lluniaeth ar nos Wener 8fed Rhagfyr.

Members maintained that the process should have been undertaken by way of a tendering exercise.

County Councillor Dafydd Edwards stated that he could provide a list of approved contractors used by the County Council for this type of work.

It was suggested that the work identified in the schedule of anchoring / re-attaching benches to concrete plinths need not be undertaken.

It was therefore **RESOLVED**:

i) to settle the invoice for £180 in respect of the inspection work undertaken and the schedule prepared by Mr Lloyd;
ii) to reomove the Cylch y Llan bench owing to its dangerous condition; and
iii) to note receipt of the quote submitted by Mr Lloyd for the renovation work and provide an opportunity for other contractors to quote for the work listed in the schedule of work.

**81.3** The arrangement for erecting and lighting the Christmas Tree on Friday 8th December and the refreshments were agreed.

**82 Materion yn Ymwneud ag Eiddo – Archwiliad Misol**

Fe gyflwynodd y Cynghorydd Lowri Jones ei hadroddiad a chyfeiriodd at gyflwr y mat diogelwch mewn mannau arbennig o'r man chwarae. Gofynnwyd I'r Clerc sicrhau fod y Cyngor Sir yn cynnwys unrhyw atgyweiriadau angenrheidiol i'r arwyneb diogelwch.

**82 Property Matters – Monthly Inspection**

Councillor Lowri Jones presented her report following her inspection and referred to the condition of the safety matting in certain areas of the playground. The Clerk was requested to ensure that any necessary repairs to the safety matting was included in the work to be undertaken by the County Council.

**83 Hysbysfwrdd ar gyfer Llansantffraed**

Rhoddwyd ystyriaeth pellach i bedwar pris a dderbyniwyd am ddarparu hysbysfwrdd i'w osod yng Nghylch y Llan, Llansantffraed. Eglurodd y Clerc fod y pris a roddwyd gan Earth Anchors am hysbysfwrdd powdwrliw ac mai hwn oedd yr un isaf. Gofynnodd hefyd am y dewis lliw.
Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:**

**83 Noticeboard for Llansantffraed**

Further consideration was given to four quotes received for the provision of a noticeboard to be erected at Cylch y Llan, Llansantffraed. The Clerk clarified that the quote received from Earth Anchors was for a powder-coated noticeboard and that it was the lowest. He also asked which colour was required.
Following discussion, it was **RESOLVED:**

i) derbyn y pris a gynigiwyd gan Earth Anchors Ltd. yn y swm o £924 + VAT; a
ii) gwneud cais i Gyngor Sir Ceredigion am Grant Cymunedol ar gyfer yr hysbysfwrdd.

i) to accept the quote submitted by Earth Anchors Ltd. in the sum of £924 + VAT; and
ii) to apply for a Ceredigion County Council Community Grant in respect of the noticeboard.

**84 Maes Chwarae Llansantffraed**

Nodwyd bod y cyfarpar chwarae heb eu trwsio hyd yn hyn.

**84 Llansantffraed Playground**

It was noted the repairs to the play equipment were awaited.

**85 Y Chalet a'r Llain**

Nodwyd unwaith yn rhagor na chlywyd rhagor hyd yn hyn ynghylch cyfraniadau gwirfoddol posib ar gyfer codi chalet newydd.

**85 The Chalet and the Slang**

It was again noted that nothing further had been heard about the possible voluntary contributions to the construction of a new chalet.

**86 Materion Ariannol**

**PENDERFYNWYD:**

i) talu'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Ground Tech Ltd (Llwybrau) | £2,160 |
| Goleuadau'r Goeden Nadolig | £73.99 |
| Torrwr Cylched | £24.99 |
| *Cyflog y Clerc (3ydd Chwarter 2017-18):* | |
| Mr Denfer Morgan | £593.58 |
| CThEM (TWE) | £148.39 |

ii) nodi derbyn ail daliad y Praesept oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion yn y swm o £3,980;
iii) nodi Adroddiad Monitro Cyllideb 2017-18 Rhif 2 a bod gwariant o fewn y Gyylideb; a
iv) rhoi gwybod I Comisiynydd yr Heddlu y dylai unrhyw godiad yn oriad Praesept yr Heddlu 2018/19.

**86 Finance Matters**

It was **RESOLVED:**

i) to pay the following:

| | |
|---|---|
| Ground Tech Ltd (Footpaths) | £2,160 |
| Christmas Tree Lights | £73.99 |
| Circuit Breaker | £24.99 |
| *Clerk's Salary (3rd Quarter 2017-18):* | |
| Mr Denfer Morgan | £593.58 |
| HMRC (PAYE) | £148.39 |

ii) to note receipt of the 2nd Precept payment from Ceredigion County Council in the sum of £3,980;
iii) to note 2017-18 Budget Monitoring Report No. 2 and that expenditure was within the Budget; and
iv) to advise the Dyfed-Powys Police Commissioner that any rise to the Police Precept for 2018/19 should be reasonable.

**87 Ymgynghoriadau**

**PENDERFYNWYD**:

i) annog Aelodau llenwi a dychwelyd yr holiadur isod:

Ymgynghoriad GIG Cymru ar Rwydwaith Trawma Mawr i Dde a Gorllewin Cymru a De Powys

Cynllun Corfforaethol Drafft Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth Cymru ar gyfer 2018-2023 (anfonwyd atoch 29/11/2017)

Ymgynghoriadau Cyngor Sir Ceredigion:

**87 Consultations**

It was **RESOLVED**:

i) to urge Members to complete and return the questionnaires in respect of the following:

The Consultation of NHS Wales on a Major Trauma Network for South and West Wales and South Powys

The Mid and West Wales Fire and Rescue Authority Draft Corporate Plan 2018 – 2023

Cynllun Llesiant Lleol drafft Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion.
Arolwg Trosedd ac Anrhefn.

ii) nodi fod yr Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol yn mynd yn ei flaen.

Ceredigion County Council consultations:
The draft Ceredigion Public Service Board Local Well-being Plan.
Crime and Disorder Survey.
ii) to note that the Local Development Plan Review would be proceeding.

**88 Adolygiad o Gynghorau Bro a Thref**

Dywedodd y Clerc ei fod wedi mynd i ddigwyddiad ymgynghori a drefnwyd ar y 4ydd o Ragfyr yn San Cler a bod Un Llais Cymru yn paratoi ymateb erbyn canol Ionawr.
**PENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc adrodd ymhellach ar yr ymateb yn y cyfarfod priodol nesaf.

**88 Review of Town and Community Councils**

The Clerk stated that he had attended the consultation event organised on 4th December at St. Clears at that a response was being prepared by One Voice Wales by mid January.
It was **RESOLVED** to request the Clerk to report the response to the next appropriate meeting.

Commented [D&J1]:
Commented [D&J2R1]:

**89 Cyfarfod Ymgynghorol y Cyngor Sir**

Rhoddwyd ystyriaeth i wahoddiad i benodi cynrychiolwyr i fynd i gyfarfod ymgynghorol gyda chynrychiolwyr Cyngor Sir Ceredigion ar nos Fawrth 9fed Ionawr 2018 yn Ysgol Bro Pedr am 6.30 pm 'i drafod materion sydd o ddiddordeb cyfredol i'r ddau gorff'.

**PENDERFYNWYD** peidio anfon cynrychiolydd i fynd i'r cyfarfod ac i nodi y byddai'r Cynghorydd Dafydd Edwards yn bresennol ynddo.

**89 County Council Consultative Meeting**

Consideration was given an invitation to to appoint representatives to attend a meeting with representatives of Ceredigion County Council on Tuesday 9th January 2018 at Ysgol Bro Pedr at 6.30 pm 'to discuss matters of current interest'.

It was **RESOLVED** not to appoint a representative to attend the meeting and to note that County Councillor Dafydd Edwards would be in attendance.

**90 Unrhyw Fater Arall**

a) Gwahodd Non Lavaro i gyfarfod yn y dyfodol i amlinellu'r defnydd a wneir ganddi o'r cyrtiau tenis ar gyfer sesiynau hyfforddi.
b) Cynigiwyd cynnwys llinellau melyn ar y gyffordd ger y modurdy ar yr A487 i'r Cynghorydd Dafydd Edwards gynnwys yn adolygiad presennol y Cyngor Sir.
c) Cytunwyd cynnal y cymhorthfa cyntaf ar ddydd Sadwrn 27ain Ionawr yma yn yr Ystafell Ddarllen ac i'w hysbysebu yn eang o fewn y gymuned.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45 p.m.

**90 Any Other Business**

a) To invite Non Lavaro to a future meeting in order to outline the use made by her of the tennis courts for training sessions
b) It was suggested to Councillor Dafydd Edwards that yellow lines be placed on the junction near the garage on the A487 as part of the current County Council review.
c) The first surgery was agreed for Saturday 27th January here at the Reading Room and to advertise it widely within the community.

The meeting concluded at 8.45 p.m.